Hawdd ei Ddeall

GIG CYMRU NHS WALES

# Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG

## Gwybodaeth i bobl



Ebrill 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Gwybodaeth i Gleifion a'r Cyhoedd.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Eich Bwrdd Iechyd**.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Am y canllaw yma** ..... **4**

**Beth ydy Gofal Iechyd Parhaus y GIG** ..... **6**

**Sut mae taliadau uniongyrchol yn gweithio ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG** ..... **8**

**Cael help** ..... **31**

# Am y canllaw yma




Mae yna reolau newydd sy'n rhan o'r gyfraith o'r enw **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru 2025**.




Mae'r rheolau newydd yn dweud bod pobl sy'n cael Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn gallu gofyn am daliad uniongyrchol i dalu am eu gofal.




Fe fydd y rheolau newydd yn dechrau o fis Ebrill 2026 yng Nghymru.



Fe fydd y newid yma yn gwneud pethau'n fwy teg ac yn fwy cyfartal ar gyfer:

- pobl anabl
- a phobl â phroblemau iechyd difrifol.

Mae'r canllaw yma yn esbonio:




- Sut mae taliadau uniongyrchol yn gweithio.
- Pwy sydd yn gallu eu cael.
- Ar gyfer beth mae  pobl yn gallu, a dim yn gallu eu defnyddio.
- Pa gefnogaeth mae pobl yn gallu ei gael.
- Beth sy'n digwydd os bydd pethau'n newid.

# Beth ydy Gofal Iechyd Parhaus y GIG



Mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn becyn o ofal parhaus. Mae'n cael ei drefnu a'i dalu gan y GIG.



Mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal sy'n gysylltiedig ag iechyd yn bennaf. Mae hyn yn gallu bod oherwydd:



- Rydych chi wedi eich analluogi.



- Mae gennych chi salwch hirdymor.



- Rydych chi wedi cael damwain.



- Mae gennych chi anabledd dysgu cymhleth.



Rhaid i'ch Bwrdd Iechyd Lleol benderfynu os ydych chi'n gallu cael Gofal Iechyd Parhaus y GIG.




Os ydych chi'n cael Gofal Iechyd Parhaus, rydych chi'n gallu gofyn am daliadau uniongyrchol i dalu am eich gofal.

# Sut mae taliadau uniongyrchol yn gweithio ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG




Taliad uniongyrchol ydy pan rydych chi'n cael arian i drefnu eich gofal eich hun. Mae hyn yn lle bod y GIG yn trefnu gwasanaethau i chi.

Rydych chi'n gallu defnyddio'r arian yma i:



- Dewis eich cefnogaeth eich hun.
- Cael mwy o reolaeth dros eich gofal.
- Cael mwy o annibyniaeth.



Dim ond os ydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG rydych chi'n gallu cael taliadau uniongyrchol.




Rhaid i chi gael asesiad i weld os ydy hyn yn berthnasol i chi.




Asesiad ydy pan fydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylid ateb eich anghenion.



Mae 7 Bwrdd Iechyd Lleol y GIG yng Nghymru. Maen nhw'n penderfynu os ydych chi'n gallu cael taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG.




Mae'r arian yn cael ei dalu:

- I chi, neu
- I rywun sy'n eich helpu i reoli eich gofal.




Mae'r arian yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu am gymorth sydd yn eich cynllun gofal. Mae cynllun gofal yn cynnwys:

- Pa gefnogaeth sydd ei angen ar berson.
- Ar gyfer beth mae'n rhaid defnyddio'r arian taliadau uniongyrchol.




Mae Taliadau Uniongyrchol yn gallu cael ei ddefnyddio i:

- Talu am eich gofal a'ch cefnogaeth barhaus.
- Talu am ofal a chymorth untro os ydy hyn wedi cael ei gytuno yn eich cynllun gofal.

# Pwy sydd yn gallu cael taliad uniongyrchol

**Efallai y byddwch chi'n gallu cael taliad uniongyrchol os:**



- Rydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG.



- Mae'n ffordd ddiogel a da o ateb eich anghenion.




- Rydych chi'n dewis cael taliad uniongyrchol. A does neb wedi eich gorfodi.



- Rydych chi, neu rywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw, yn gallu rheoli'r arian.

# Cytuno i gael taliad uniongyrchol



Rhaid i chi ddeall beth ydy taliad uniongyrchol.



Rhaid i chi benderfynu os ydych chi eisiau taliad uniongyrchol i dalu am eich gofal.



Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n dewis i benderfynu ar eich rhan.




Os nad ydych chi'n gallu gwneud penderfyniadau ddim mwy, fe fydd eich cynllun gofal yn dweud beth sy'n digwydd.

# Ar beth mae taliadau uniongyrchol yn gallu cael ei wario

**Rydych chi'n gallu gwario'ch taliad uniongyrchol ar ofal a chymorth sydd wedi cael ei gytuno yn eich cynllun gofal.** Er enghraifft:



- Cynorthwywyr personol.



- Hyfforddiant ar gyfer cynorthwywyr personol.



- Cefnogaeth i fyw'n annibynnol.



- Gwasanaethau neu weithgareddau sy'n helpu eich iechyd a'ch llesiant.




- Eitemau untro sydd wedi cael eu cytnuo yn eich cynllun gofal.



- Os oes angen cymorth brys arnoch i barhau â'ch gofal.

## Dydych chi ddim yn gallu gwario'ch taliad uniongyrchol ar:



- Apwyntiadau neu driniaethau meddygon teulu.



- Brechiadau neu archwiliadau iechyd.



- Gofal ysbyty brys neu lawdriniaeth wedi'i gynllunio.



- Taliadau'r GIG. Fel deintydd, archwiliadau llygaid, presgripsiynau.



- Alcohol, ysmygu, gamblo, neu dalu dyledion.




- Pethau anghyfreithlon.



- Biliau fel trydan neu ddŵr.

# Beth fydd yn eich cynllun gofal

Fe fydd eich cynllun gofal:




- Yn dangos eich anghenion a'ch nodau.



- Yn dweud beth fydd eich taliad uniongyrchol yn talu amdano. Yn dweud wrthych chi faint o arian fyddwch chi'n ei gael a pha mor aml.



- Yn rhoi enwau eich Cydlynydd Gofal Iechyd Parhaus y GIG.



- Yn dweud wrthych chi pryd fydd eich adolygiad cyntaf yn digwydd.




- Yn dweud wrthych chi am unrhyw risgiau a sut i'ch cadw'n ddiogel.

## Adolygu eich cynllun gofal




Fe fydd eich cynllun gofal yn cael ei adolygu mewn 3 mis. Ar ôl hynny, fe fydd yn cael ei adolygu o o leiaf unwaith y flwyddyn.




Mae adolygiadau yn cael eu gwneud i  weld ydy'ch cynllun yn dal i fodloni'ch anghenion.



Mae hefyd yn edrych ar bethau fel gwariant, hyfforddiant, yswiriant, a diogelwch.



Os bydd eich anghenion yn newid, mae adolygiadau yn gallu digwydd yn gynt.

# Rheoli taliad uniongyrchol





Rhaid i'r taliad uniongyrchol gynnwys popeth rydych chi a'ch cydlynydd gofal yn cytuno arno yn eich cynllun gofal.




Rhaid i'r arian fynd i gyfrif banc ar wahân neu i gyfrif sydd yn cael ei reoli.



Efallai y bydd gennych chi ychydig o arian ar gyfer argyfyngau.




Rhaid i chi gadw cofnodion fel anfonebau a datganiadau banc. Rydych chi'n gallu cael help ar gyfer hyn. Mae anfoneb yn fil.

# Oes rhywun arall  yn gallu rheoli'r taliad uniongyrchol i chi



Oes. Rydych chi'n gallu:



- Dewis **enwebai** rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw i reoli'r arian.

  Mae **enwebai** yn berson rydych chi'n ei ddewis i reoli eich taliadau uniongyrchol.



- Cael **cynrychiolydd** os nad oes gennych chi **alluedd**. Mae hyn yn meddwl nad ydych chi'n gallu gwneud penderfyniadau neu ddewisiadau.

  Mae **cynrychiolydd** yn berson sy'n gwneud dewisiadau i chi os nad ydych chi'n gallu penderfynu. Maen nhw'n helpu gyda phethau fel arian, iechyd, neu ofal.



- Defnyddio gwasanaeth i helpu i reoli'r arian.

# Defnyddio taliad uniongyrchol i dalu cynorthwywyr personol



Mae cynorthwyydd personol yn berson sy'n eich helpu gyda thasgau bob dydd. Mae hyn yn gallu cynnwys pethau fel:

- Gwisgo neu ymolchi.
- Paratoi prydau bwyd.
- Mynd allan neu deithio.



Rydych chi'n gallu defnyddio'ch taliad uniongyrchol i dalu cynorthwywyr personol. Ar gyfer pethau fel:

- Cyflogau
- Treth ac Yswiriant Gwladol
- Hyfforddi
- Yswiriant
- Tâl gwyliau a salwch.




Rhaid i chi ddilyn rheolau wrth logi cynorthwywyr personol.



Weithiau rydych chi'n gallu aniatáu i deulu neu ffrindiau fod yn gynorthwyydd personol.



Fe fydd eich cydlynydd gofal yn siarad â chi am hyn.

# Prynu gwasanaethau



Rydych chi'n gallu prynu gwasanaethau cymorth gan gwmnïau neu asiantaethau.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Rhaid i chi edrych I weld ydy'r cwmni neu'r asiantaeth wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.



Fe ddylech chi ofyn iddyn nhw oes ganddyn nhw yswiriant, hyfforddiant, a dilyn rheolau diogelwch.

# Aros yn ddiogel



Fe fydd eich cynllun gofal yn rhestru unrhyw risgiau.



Rhaid i'ch Bwrdd Iechyd lleol eich helpu i gadw'n ddiogel.



Dywedwch wrth rywun os ydych chi'n poeni.



Dywedwch wrth eich Bwrdd Iechyd lleol os ydych chi'n meddwl nad ydy arian yn cael ei ddefnyddio'n iawn.



Os ydy cynorthwyydd personol yn eich brifo, rhaid i'r Bwrdd Iechyd helpu i'ch cadw'n ddiogel. A chymryd y camau cywir i'ch amddiffyn.

# Beth sy'n digwydd os bydd eich anghenion yn newid




Dywedwch wrth eich Bwrdd Iechyd os ydy eich anghenion yn newid.




Fe fydd eich cynllun gofal yn cael ei ddiweddaru.



Mae eich taliad uniongyrchol yn gallu newid i'ch cadw'n ddiogel.




Os ydych chi'n mynd i'r ysbyty, dydy eich taliad uniongyrchol ddim yn stopio. Dywedwch wrth eich Cydlynydd Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Fe fyddan nhw yn rhoi cyngor i chi.

# Ydy taliadau uniongyrchol yn gallu cael ei stopio



Mae taliadau uniongyrchol yn gallu cael ei stopio os::

- Rydych chi'n dewis ei stopio.
- Dydych chi ddim angen gofal ddim mwy.
- Dydy'r arian ddim yn cael ei ddefnyddio fel sydd wedi cael ei gytuno.
- Mae yna faterion diogelwch. Fel nad ydy'r gofal yn gallu parhau I fod yn ddiogel.
- Mae'r arian wedi'i ddwyn neu heb ei ddefnyddio yn y ffordd iawn.



Fe fyddwch chi'n cael gwybod y rhesymau pam yn ysgrifenedig.

# Os nad ydych chi'n cytuno ag unrhyw benderfyniad



Rydych chi'n gallu gofyn i'ch Bwrdd Iechyd lleol edrych eto ar benderfyniadau dydych chi ddim yn cytuno â nhw.

Os nad ydych chi'n hapus, rydych chi'n gallu:




- Cysylltu â'ch Bwrdd Iechyd lleol i wneud cwyn.

- Gofyn am gymorth am ddim gan Llais, sydd yn gallu helpu gyda phryderon gwasanaeth iechyd: https://www.llaiscymru.org

- Os nad ydych chi'n hapus o hyd, rydych chi'n gallu cysylltu gyda Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

  https://www.ombwdsmon.cymru

# Gwybodaeth



Rhaid i'ch Bwrdd Iechyd lleol a'ch gor lleol gadw'ch gwybodaeth yn ddiogel.



Dim ond y wybodaeth maen nhw ei angen sydd yn cael ei gasglu.




Rydych chi'n gallu gofyn am wybodaeth yn yr iaith o'ch dewis chi.




Rydych chi'n gallu gofyn am wybodaeth mewn Hawdd ei Ddeall neu mewn print bras.

# Pa gefnogaeth rydych chi'n gallu  ei gael



**Fe fydd eich Bwrdd Iechyd lleol yn:**

- Cytuno ar eich cynllun gofal.



- Cytuno ar y gyllideb.



- Llofnodi eich cytundeb talu uniongyrchol gyda chi. Mae hyn yn esbonio'r broses mae'r ddau ohonoch chi'n cytuno â hi.



- Gwneud yn siŵr eich bod yn cael help gan staff gofal iechyd a'ch Cydlynydd Gofal.



**Gall eich cyngor lleol neu bartneriaid eraill weithio gyda'ch Bwrdd Iechyd lleol i:**



- Gwneud y taliadau i chi.
- Edrych ar eich gwariant.
- Adolygu eich taliad uniongyrchol.



**Os ydych chi'n defnyddio gwasanaeth i reoli'ch arian, fe fyddan nhw yn:**

- Helpu gyda chofnodion talu.
- Anfon adroddiadau i chi.
- Dweud wrth eich Bwrdd Iechyd lleol os oes ganddyn nhw bryderon.

## Beth ddylech chi ei wneud

Fe ddylech chi:




- Defnyddio'r arian ar gyfer eich cynllun gofal yn unig.



- Cadw cofnodion o oriau mae cynorthwywyr personol wedi ei weithio. A gwneud yn siŵr eu bod wedi'u hyfforddi i'ch helpu chi.



- Cadw cofnodion o unrhyw arian rydych chi'n ei wario o'r taliad uniongyrchol.



- Dweud wrth eich Bwrdd Iechyd lleol os bydd unrhyw beth yn newid.

# Cael help



Fe fydd eich Bwrdd Iechyd lleol yn darparu:

- Gwybodaeth
- Cyngor
- a chefnogaeth am daliadau uniongyrchol.

**Rydych chi'n gallu darganfod mwy am eich Tîm gofal Iechyd lleol o'ch Bwrdd Iechyd:**





**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

**Ffôn:** 01639 684561

**E-bost:** planning.office@wales.nhs.uk

**Gwefan:** https://bipba.gig.cymru






**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

**E-bost:** complex.care@wales.nhs.uk

ABB.CommissioningAdmin@wales.nhs.uk

**Gwefan:** https://bipab.gig.cymru




**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Gwefan:** https://bipbc.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-ysbyty/gofal-iechyd-parhaus-y-gig






**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**E-bost:** Direct.Payments.CAV@wales.nhs.uk

**Gwefan:** https://bipcaf.gig.cymru

**Cwm Taf Morgannwg University Health Board**

**Ffôn:** 01443 744854

**Gwefan:** https://bipctm.gig.cymru/gwasanaethau/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-chc

**Hywel Dda University Health Board**

**Ffôn:** 01554 783624
01554 783625

**E-bost:** NHS.LongTermCare@wales.nhs.uk

**Gwefan:** https://biphdd.gig.cymru

**Powys Teaching Health Board**

**Ffôn:** 01686 252105

**E-bost:** powys.complexcare@wales.nhs.uk

**Gwefan:** https://biap.gig.cymru

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247